

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (Y
GERBYTFFORDD TUA'R GORLLEWIN O
RAGLAN I'R FENNI, SIR FYNWY)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Rhaglan a Chyfnewidfa Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhaglan hyd at ei chyffordd â Chyfnewidfa Hardwick, y Fenni.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd yw mynd ar yr A40 tua'r dwyrain o Gylchfan Rhaglan i Gyfnewidfa Rhaglan, ar yr A449 tua'r de i Gyfnewidfa Coldra, cymryd y gyffordd byrger a dilyn yr M4 tua'r gorllewin, ymadael wrth Gyffordd 25a (Cylchfan Grove Park) a dilyn yr A4042 tua'r gogledd i Gylchfan Hardwick. Y llwybr arall ar gyfer traffig lleol a defnyddwyr heblaw modurwyr yw mynd ar y B4598 Clytha Road a Groesonen Road i Gyfnewidfa Hardwick.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Chwefror 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 20:00 o'r gloch ar 21 Chwefror 2025 tan 06:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2025 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith a ailamserlennir ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A40 TRUNK ROAD (WESTBOUND
CARRIAGEWAY FROM RAGLAN TO
ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Raglan Roundabout and Hardwick Interchange, Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the western side of Raglan Roundabout to its junction with Hardwick Interchange, Abergavenny.

The alternative route for through traffic is via the eastbound A40 from Raglan Roundabout to Raglan Interchange, the southbound A449 to Coldra Interchange, take the hamburger junction and follow the westbound M4, exit at Junction 25a (Grove Park Roundabout) and follow the northbound A4042 to Hardwick Roundabout. The alternative route for local traffic and non-motorised users is via the B4598 Clytha Road and Groesonen Road to Hardwick Interchange.

The Order comes into force on 21 February 2025. The temporary prohibition is expected to operate from 20:00 hours on 21 February 2025 until 06:00 hours on 22 February 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before the start of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government